**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS,
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Dyddiad: 31 Mawrth 2023

Pwnc: "Sortiwch y Switsh" Mind Cymru

Annwyl Lynne

Diolch i chi am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 15 Rhagfyr 2022 ar fater pwysig pontio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ("CAMHS") a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion ("AMHS"). Yn ogystal â llywio ein gwaith ar bontio, roedd yn amserol iawn o ran ein hadroddiad ar gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, lle'r oeddem yn galw am weithredu argymhellion Sortiwch y Switsh yn llawn.

Fel y gwyddoch, roedd y sesiwn hon wedi'i threfnu o ganlyniad i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc a oedd yn ymwneud ag adroddiad Sortiwch y Switsh Mind Cymru. Roedd y sesiwn gyda phobl ifanc yn hynod o bwerus. Fe wnaethant adrodd am eu profiadau yn arbennig o huawdl, a chyda synnwyr clir iawn am y newidiadau yr hoffent eu gweld i wella pethau i bobl ifanc eraill sy'n mynd drwy'r cyfnod pontio hwn. Fel y gwyddoch, fe wnaethom ofyn cwestiynau a ddaeth yn uniongyrchol gan y bobl ifanc. Mae clywed gan, a gweithredu ar sail profiadau uniongyrchol plant a phobl ifanc yn ffocws canolog i'n gwaith.

Gwyddom eich bod chi eich hun yn ymroddedig iawn i sicrhau gwelliannau sylweddol yn lles meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc a'r gwasanaethau sy'n cefnogi hyn.  Roeddech yn glir yn ystod y sesiwn fod pontio yn faes blaenoriaeth. Yn dilyn y sesiwn hon, a'r sesiynau craffu ar y gyllideb ym mis Ionawr, gwnaethom nodi fod nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer Lywodraeth Cymru. Gyda Gweinidogion yn dweud wrthym yn rheolaidd fod gwahanol feysydd yn flaenoriaethau iddynt, mae'n anodd deall yn union beth yw'r blaenoriaethau allweddol weithiau. A allwch amlinellu sut yr ydych yn sicrhau bod ymrwymiad trawslywodraethol i'ch meysydd blaenoriaeth, pan wyddom fod gan Weinidogion eraill Llywodraeth Cymru feysydd blaenoriaeth eraill.

Yn ystod y sesiwn buom yn edrych yn fanwl ar y “bwlch o ran gweithredu” rhwng y strategaethau a’r polisïau pontio presennol, a phrofiadau pobl ifanc o sut y cânt eu darparu ledled Cymru. Er mwyn llywio ein dealltwriaeth o’r bwlch hwn, byddai’n ddefnyddiol pe gallech roi i ni’r gyfres lawn o strategaethau a chanllawiau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sy’n berthnasol i’r pontio rhwng CAMHS ac AMHS. Rydym yn ymwybodol bod amrywiaeth o ddogfennau’n gysylltiedig â hyn, ac er mwyn inni fod yn glir, byddai’n ddefnyddiol cael pob un ohonynt wedi’u rhestru ar ein cyfer.

Ym mis Rhagfyr, bu ichi dynnu sylw at yr heriau sy’n ymwneud â data, pan ddywedasoch fod rhai pethau’n anodd eu mesur. Fel y disgrifiwyd gennych, mae gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu mesurau canlyniadau yn CAMHS ac yn fwy cyffredinol ar draws gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn; beth fydd y canlyniadau tebygol ac a fydd y rhain yn ddata a fydd ar gael yn fwy cyffredinol, neu a fyddant yn cael eu defnyddio at ddibenion rheoli yn unig gan Fyrddau Iechyd a’r Llywodraeth?

Clywsom am y gyfres o weithdai gyda CAMHS ac AMHS, yr oeddech yn obeithiol y byddent yn “treiddio i mewn i edrych beth yw’r heriau o ran gweithredu....” Byddai’n ddefnyddiol iawn i’n gwaith pe gallech roi rhagor o wybodaeth inni am y gweithdai, gan gynnwys y canlyniadau a’ch barn ar sut y byddant yn cyfrannu at ddatblygu a gwella polisi?

Byddem hefyd yn croesawu pe baech yn nodi sut yr ydych yn gwerthuso effeithiolrwydd cymorth pontio a gwasanaethau pontio yn fwy cyffredinol ledled Cymru. Ym mis Rhagfyr, bu ichi drafod eich cyfarfodydd rheolaidd ag Is-Gadeiryddion Byrddau Iechyd a’ch bod wedi trafod pontio gyda’r grŵp hwn.

Yn ystod y sesiwn cyfeiriasoch at waith Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS). Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau’r gwaith hwn, a beth yw’r camau nesaf. Er bod gennym ddiddordeb yn hyn yng nghyd-destun pontio yn benodol, mae gennym hefyd ddiddordeb ehangach yn y gwaith hwn gan ei fod yn gysylltiedig â'n diddordeb ehangach mewn lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.

Soniasom hefyd am wasanaethau anhwylderau bwyta yn ystod y sesiwn, pan wnaethoch ddisgrifio’r cynnydd sy’n cael ei wneud yn y gwasanaethau hyn. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am y gwelliannau sy'n cael eu cyflawni ar draws y gwasanaethau anhwylderau bwyta, yn enwedig ynghylch y pontio rhwng gwasanaethau plant a phobl ifanc a gwasanaethau oedolion.

Oherwydd y diddordeb cyffredin yn y maes, rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.